# Cyngor Cymuned Tudweiliog

## Tudweiliog Community Council

Heulwen Williams
Clerc/clerk
01758 770415

Pen Cefn,
Dinas,
Pwllheli.
LL53 8UB.

## Cofnodion Cyngor Cymuned Tudweiliog 11ed Gorffennaf 2022

Presennol: Gareth Jones, Alyn Williams, Terry Huws, Henry Huws, Chris Brady, Sian Parry

Ymddiheuriadau: John Davies, Sioned Pearson

1. Cadeiriwyd gan Gareth Jones ac estynnodd groeso i bawb. Mynegodd y Cadeirydd gydymdeimlad y Cyngor ac Alan Hughes a Sioned Pearson ar golli eu brawd ynghyfraith.

2. Derbynwyd y cofnodion diwethaf fel rhai cywir.

3. Materion yn codi o'r cofnodion:
   a. **Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy** – Gofynnodd y Clerc i Chris Brady am amcan bris y grid fel ei bod yn gallu rhoi cais i'r gronfa.
   b. **Gor yrry ar lon ysgol Tudweiliog -**Unwaith eto ni dderbynwyd unrhyw ymateb gan y Swyddog Iwan ap Trefor, bydd y Clerc yn parhau i geisio cysylltu â'r Swyddog.
   c. **Tir Garnfadryn –** Anfonodd y Clerc at Mel ab Owain o Un Llais Cymru am gyngor. Bydd y Clerc hefyd yn cysylltu a'r Cyngor Sir.
   ch. **Croes ar Ben Garn Fadryn –** Bu i'r Clerc gysylltu a'r adran Gynllunio ynglyn a'r pryder sydd am y groes a hefyd eu gwybyddu o'r fflag, ond ni chafwyd ymateb. Bydd y Clerc yn cysylltu eto ar adran, a hefyd yn cysylltu a'r Parch Kevin Ellis gan ofyn os y bydd yr Eglwyd yn cymeryd cyfrifoldeb pe byddai damwain yn digwydd o ganlyniad i'r groes.
   d. **Cyfethol – 2 sedd wag –** Deallwyd fod Catrin Williams hefo diddordeb bod yn Gynghorydd ward Llangwnnadl, bydd y Clerc yn cysylltu a hi. Hyd yma does dim enw wedi ei gyflwyno i lenwi sedd.

dd. **Porth ysgaden** – Ysgrifennodd y Clerc ar Dafydd Wyn Williams a Wyn Williams i bwyso am ddiweddariad – disgwyl ymateb

4. Gohebiaeth:

a. **Anfoneb Argraffdy £20.00 –** Derbynniodd y Clerc ganiatad i dalu'r anfoneb.

b. **Siec Mynwent Tudweiliog –** Oherwydd fod y Clerc wedi methu dyddio siec mynwent Tudweiliog o £500.00 roedd y banc yn gwrthod ei newid, gofynodd y Clerc ganiatad i wneud siec arall – derbynniodd ganiatad.

c. **Arolwg Iaith Cynghorau Cymuned –** derbyniodd y Clerc arolwg gan Gyngor Ward yr Eifl, trafodwyd a bydd y Clerc yn anfon yr ymatebion yn ol.

ch. **Gweithdai Ardal Ni 2035 –** Erbyn hyn mae prosiect Ardal Ni 2035 yn symud ymlaen i'r cam nesaf, bydd digwyddiadau yn cael eu cynnal mewn ardaloedd gwahanol. Gofynwyd i'r Cyngor ddwis dau i'w cynrychioli, dewiswyd Sian Parri a'r Clerc.

d. **Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Cyngor Gwynedd** – Rhannodd y Clerc yr ebost (gyda'r ddolen i dderbyn copi digidol o'r Cynllun) i'r Cynghorwyr, fel bod pawb yn gallu ei ddarllen.

dd. **Llythyr Sian Parri -**Anfonodd Sian Parri lythyr i'r Clerc yn egluro ei bod wedi camgymeryd wrth lenwi'r ffurflen etholiad gan nodi mai sedd Tudweiliog mae' ei gynrychioli yn hytrach na ward Llangwnnadl.

e. **Cais Cynllunio C22/0567/46/DT Swn yr Engan, Dinas** - Cefnogi

f. **Cais Cynllunio C22/0584/46/DT Tany Ffordd, Garnfadryn -** Cefnogi

ff. **Cais Cynllunio C22/0604/46/LL Nyffryn, Edern –** Dim Gwrthwynebiad

g. **Cais Cynllunio C22/0603/46/LL Nyffryn, Edern** – Dim gwrthwynebiad

5. **Unrhyw fater arall-**

**a.** Mynwent Newydd i Tudweiliog- Cafwyd ar ddeall fod stad Cefnamwlch wedi cytuno i roi tir ar gyfer Mynwent newydd i'r pentref. Bydd Chris Brady yn parhau mewn trafodaeth a Dafydd Wynne Finch, a bydd yn ein diweddaru mis Medi o'r datblygiad.

Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Lun 12fed Medi 2022 am 7.30yh